

## CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

### **Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher y 29ain o Dachwedd 2023 am 7.30yh yn Neuadd Aberangell.**

Presennol; Cyng. Catrin Johnson, John P Jones, Berwyn Harding, Wyn Lewis, John P Roberts, Idris Jones, Sion Alun Roberts, Rhys Davies, Geraint Morgans, Arfon Hughes, a Huw T Jones (Clerc)

1. **Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Catrin Johnson**, gan ddiolch am y gwahoddiad i Aberangell. Roedd ymddiheuriadau i law gan Cyng Lynne Mccrickett.

Gwahoddwyd **ddatganiadau o ddidordeb** am faterion ar yr agenda, a nododd Cyng Catrin Johnson ddatganiad o ddiddordeb yn eitem 4c - torri gwair mynwent Dinas.

2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd** ar yr 11eg Hydref ar gynnig Cyng Wyn Lewis a'i eilio gan Cyng Rhys Davies.

#### 4. **Materion yn codi**

- a) **Materion Priffyrdd/Cefnffyrdd** – adroddwyd am y materion Priffyrdd ers y tro diwethaf. Gyda maes parcio Neuadd Aberangell, byddai rhaid aros am gyfarfod ar y safle. Gyda dwr ar Rhiw Landrin, gwelwyd fod angen lluniau fel tystiolaeth i ddangos hyn. Roedd angen parhau i bwysu am dorri'r coed i gyfeiriad Tymawr , Aberangell. Cadarnhaodd Cyng Catrin Johnson y byddai yn paratoi arwyddion dwyieithog yn y fynedfa i Lawnt y Plas i geisio lleihau cyflymder, a diolchwyd yn fawr iawn iddi.  
O ran materion Cefnffyrdd, a'r pryder am goed uwchlaw'r A470 yn Dinas Mawddwy, roedd cadarnhad eu bod wedi ymrwymo i gael gwared o'r coed ar ol adroddiad ymgynghorydd i fanylu ar y gwaith sydd ei angen.
- b) **Gwerthiant Eglwys Llanymawddwy** – adroddwyd nad oedd unrhyw ddatblygiadau l'w hadrodd ers y cyfarfod diwethaf, ond fod yna gyfarfod wedi ei drefnu gyda'r Eglwys yng Nghymru.
- c) **Torri gwair mynwent Dinas 2024** – adroddwyd y sefyllfa ers y cyfarfod diwethaf. Yn rhan yma'r cyfarfod, cafwyd datganiad o ddiddordeb gan Cyng Catrin Johnson, a gadawodd y cyfarfod tra roedd hyn yn cael ei drafod. Roedd y cais yn hysbyseb y wasg am gael atebion erbyn y 10fed o Hydref, ac atgoffwyd mai un ymateb a gafwyd erbyn y dyddiad hwnnw, sef gan Andrew Johnson (sef £1100) ond bod yna bris l law gan Tegid Humphreys am £1000 wedi ei dderbyn ar yr 20fed o Hydref. Penderfynwyd, ar gynnig John P Roberts a'i eilio gan Geraint Morgans, a gyda chefnogaeth unfrydol, l dderbyn pris Andrew, gan mai dyma ddaeth l law yn dilyn y drefn a osodwyd.

Adroddwyd wedyn am y pris I law gan Tegid am dorri gwair mynwentydd Mallwyd a Llanymawddwy am 2024, sef £1500 a phenderfynwyd, ar gynnig John P Roberts a'i eilio gan Sion Alun Roberts, a gyda chefnogaeth unfrydol, I dderbyn hyn am 2024. Roedd angen pwysleisio fodd bynnag fod rhaid l'r gwair gael ei glirio. Dywedodd y Clerc y byddai yn ymarfer da mynd allan am dendr ar y gwaith bob 3 blynedd.

- d) **Toiledau Dinas Mawddwy** – roedd cadarnhad gan Gyngor Gwynedd fod y gwaith oedd ei angen ar y to wedi ei gwblhau.
- e) **Gwaith gan ADRA yn Lawnt y Plas** – roedd Adra wedi eu hatgoffa am y mater, ac roedd Cyng Idris Jones wedi danfon lluniau I ddangos yr hyn oedd angen ei wneud, a bod perygl troi troed yn y weiar dros y cerrig yno.
- f) **Hyfforddiant Cynghorwyr** – roedd y cyrsiau oedd ar gael wedi eu dosbarthu. Nodwyd yn y cyswllt yma y dylid cydnabod a chofio mai gwaith gwirfoddol oedd bod yn Gynghorydd.
- g) **Safle hysbysu llwybrau Cwmni Nod Glas.** – nid oedd ymateb gan Cyng Arfon Hughes fel Ysgrifennydd y Cwmni, ond dywedodd fod cyfleon wedi bod l'r cyhoedd fynychu digwyddiadau cyhoeddus, a bod croeso I unrhyw un gysylltu gyda ef os oedd angen. Hefyd ategwyd hyn gan Cyng John P Roberts, ond eglurodd nad oedd yn aelod o Gwmni Nod Glas.
- h) **Cwyn am 2 garafan static** – Min y Goedwig, Aberangell, darllenwyd ymateb y Parc Cenedlaethol yn dweud eu bod wedi siarad gyda'r preswylwyr, a bod cyfarfod safle wedi ei drefnu,
- i) **Cwynion am feddygfa Machynlleth** – darllenwyd ymateb Clerc Cyngor Cymuned Glantwymyn, a'r cofnodion pryd y bu Hayley Thomas, o Fwrdd Iechyd addysgu Powys gyda'r Cyngor. Adroddwyd fod Cyngor Glantwymyn yn cyfarfod Nos Iau 30 Tachwedd. Pwysleisiwyd eto fod angen cwynion gyda tystiolaeth penodol os oedd angen ysgrifennu atynt.

## 5. Materion Cynllunio

Nid oedd unrhyw geisiadau gerbron.

## 5. Materion Cyllid.

- a) Nodwyd balansau cyfrifon y Cyngor (29.11.23), sef Cyfri Cyfredol £7507.40, Cyfri Claddedigaeth £844.87 Cyfri Cadw £774.10.
- b) Roedd cais am gymorth gan Radio Ysbyty Gwynedd a Theatr Bara Caws, ac ar gynnig Cyng John P Roberts a'l eilio gan Cyng John P Jones penderfynwyd peidio cyfrannu.
- c) Cytunwyd yn ol yr arfer i dalu £20 i'r Clerc am dorch Sul y Cofio, a chyfrannu £50 i Sioe Dinas Mawddwy (sef dymuniad Geraint Gwanas drwy ei rodd ef o goeden Nadolig o flaen y Neuadd) Hefyd cost hysbyseb yn y Blewyn Glas yn gwahodd tendrau ar gyfer torri gwair mynent Dinas am gost o £10. Cadarnhawyd hyn i gyd ar gynnig Geraint Morgans a'i eilio gan John P Roberts a chefnogaeth pawb. Byddai'r Clerc yn danfon gair o ddiolch i Geraint Gwanas.

- Hefyd ar gynnig Geraint Morgans a'i eilio gan John P Jones a chefnogaeth pawb, cytunwyd i dalu cost goleuadau o'r newydd i'r Goeden nadolig ar gost o £88.94. Roedd ail set o oleuadau hefyd wedi eu prynu gan Cyng Catrin Johnson, a diolchwyd yn fawr iawn iddi.
- d) Adroddwyd fod y Pwyllgor Cyllid wedi cyfarfod ymlaenllaw, ac wedi paratoi cyllideb ar gyfer 2024-25. Aethpwyd drwy'r prif benawdau ar gyfer y gwariant am weddill y flwyddyn, ac edrych ymlaen at flwyddyn 2024-25. Nodwyd na fu cynnydd yn y praesept yn 2022-23. Yng ngwyneb cynnydd mewn costau, cytunwyd ar gynnig Cyng John P Roberts a'i eilio gan Berwyn Harding a chefnogaeth mwyafrif clir o'r Cynghorwyr i godi y praesept ar gyfer 2024-25 y swm o £2000, sef y gyfanswm felly o £12,700.

## **7. Gohebiaeth.**

- a) Adroddwyd ohebiaeth am Lwfansau Cynghorwyr. Cadarnhaodd y Cynghorwyr I gyd nad oeddynt am dderbyn unrhyw lwfansau am 2023-24, ac arwyddodd pob un ddatganiad yn cadarnhau hynny.
- b) Nodwyd ohebiaeth am adolygiad lechyd democrataidd Cynghorau Cymuned gan Lywodraeth Cymru – roedd y gwybodaeth wedi ei ddanfôn allan i'r Cynghorwyr.
- c) Nodwyd ohebiaeth am Gyfarfod Blynyddol Eco-Dyfi Nos Iau 30 Tachwedd 7yh ar zoom. Byddai ein cynrychiolydd Rhys Davies yn cymryd rhan.
- d) Darllenwyd E bost PCSO Paula Stewart 'Dangos y drws i drosedd', a rhoddwyd y manylion i'r Cynghorwyr.
- e) Nodwyd ohebiaeth Cyngor Gwynedd am raglen waith Adran Priffyrdd yn yr ardal.
- f) Nodwyd y canlynol;
- Ymgynghoriad strategaeth diogelwch ffyrdd Llywodraeth Cymru (danfon I Cyng J P Roberts)
  - Adroddiad Blynyddol Mantell Gwynedd 2022-23.
  - Cynhadledd Gwobrau Cenedlaethol Un Llais Cymru 27/3/24 – danfonwyd allan eisoes.
  - Strategaeth Hamdden Parc Cenedlaethol Eryri (danfon I Cyng Arfon Hughes)
  - Manylion Cronfa Grant Lleihau Unigrwydd a darparu croeso Mantell Gwynedd – danfonwyd eisoes.

## **8. Unrhyw Fater arall.**

- a) Cyfeiriwyd at yr angen i sicrhau fod y biniau halen yn yr ardal yn cael eu llenwi yr adeg hon o'r flwyddyn. Gofynnwyd i'r Cynghorwyr ystyried hyn o fewn eu hardaloedd, ac ymateb i'r Clerc o fewn y 7 diwrnod nesaf.
- b) Diolchwyd am y gwaith da ar ffordd i Lanymawddwy.
- c) Cyfeiriwyd at gwynion gan rieni Ysgol Dinas Mawddwy nad oedd drama Nadolig wedi ei chynnal yn yr ysgol yn y Dinas eleni, a bod plant yn cael eu hamddifadu o gyfleon. Gofynnwyd hefyd paham fod y llwyfan yn Ysgol Dinas

- wedi ei gau. Dywedwyd bod rhieni yn fwy aml na pheidio yn gorfod teithio i Ddolgellau i weld eu plant yn cymryd rhan, ac roedd rhai yn dechrau ymholi a oedd yna fwy o gyfleon yn Ysgol Bro Hyddgen. Gofynnwyd i'r Clerc ddanfon gair at Jano Owen y Brifathrawes, ac hefyd at Gadeirydd y Llywodraethwyr.
- d) Nodwyd fod rhaid cadw mewn cof y sefyllfa gyda Pwyllgor yr Hen Fynwent, ac yn arbennig y problemau efo'r wal derfyn. Byddai hyn ar yr agenda y tro nesaf.
  - e) Atgoffwyd pawb o'r drafodaeth am yr angen i gael lle chwarae i blant hyd at 15 oed yn y Plas yn Dinas. Cyfeiriodd Cyng Wyn Lewis at drafodaeth gyda swyddog o Gyngor Gwynedd, ac roedd angen cynllun o beth fyddai yn ddelfrydol ar gyfer y safle, beth fyddai'r defnydd, a pwy fyddai yn ei edrych ar ei ol wedyn. Dywedodd y byddai ef yn ymateb i hyn, ac yn cadw cyswllt gyda'r Clerc.
  - f) Nodwyd y siom fod yr A470 wedi cau am wythnos yn ddiweddar ger Talerddig, Llanbryn-mair, a oedd wedi achosi anhwylystod mawr i drigolion ardal eang, gan gynnwys trigolion ardal Mawddwy. Roedd yn ymddangos nad oedd gwaith enfawr ei angen yno, ac hefyd y dylid fod wedi rhagweld hyn ers peth amser. Gofynnwyd i'r Clerc ddanfon gair i'r Adran Cefnffyrdd.
  - g) Nodwyd fod rhaid cadw mewn cof y sefyllfa gyda biniau baw cwn yr ardal, a nodwyd fod Cyng Lynne Mccrickett wedi gwneud gwaith enfawr ar hyn.
  - h) Adroddwyd fod y maes chwarae yn y Plas yn fler, ac roedd angen gwybod beth oedd sylwadau ROSPA ar hyn, gan fod angen paentio etc. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Chyngor Gwynedd ynglyn a hyn, gan mai nhw sy'n gyfrifol am y maes chwarae.
  - i) Roedd dwr yn dod i lawr o gyfeiriad y llwybr o'r gofgolofn i Minllyn, ac ar iard ty 'Conifers' ac yna i lawr i'r ffordd. Roedd angen edrych i mewn i hyn.
  - j) Roedd dwr ar y ffordd ger Celyn Brithion, ac roedd angen cyfeirio hyn at yr Adran Cefnffyrdd.
  - k) Diolchwyd yn fawr iawn i'r Cyng Idris Jones am ei waith yn trwsio y fainc ar Rhiw Landrin, ac am gyfrannu'r deunydd ar gyfer hyn.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NEUADD DINAS MAWDDWY NOS  
FERCHER 24ain Ionawr 2024 , 7.30 y.h.**